SUT ENW YDYCH CHI'N EI WNEUD GYDA DUW?

Nodyn i'r siaradwr:
Hybwch werthfawrogi gwerth enw da. Pwysleisiwch fod meithrin a chadw enw o'r fath yn golygu ymdrech ddiwyd ac yn ymwneud â'r holl ffordd o fyw. Pwysleisiwch mai dim ond enwau a gymeradwya Duw fydd yn ei lyfr bywyd

YDYCH CHI'N POENI AM WNEUD ENW I CHI'CH HUN? (6 mun.)

Efallai mai dim ond i ychydig bethau y rhowch fwy o sylw nag a rowch i'ch enw da

Er mwyn cynnal hunan-barch, dymuna'r rhan fwyaf o bobl i eraill feddwl yn uchel ohonynt

Efallai ichwi ddigio pan waradwyddodd rhywun eich enw da (Cymharer Gen 34:25-30)

Mae'r Beibl yn cydnabod gwerth enw da (Diar 22:1)

Faint o ymdrech wnewch chi i sicrhau enw da?

Mae rhai yn treulio oes gyfan i wneud enw iddynt eu hunain mewn gwleidyddiaeth, busnes, yn y theatr, chwaraeon, gwyddoniaeth

Mae rhai yn fodlon gwneud unrhyw beth bron er mwyn gwneud enw iddynt eu hunain

'Roedd y rhai yn Babel yn barod i anufuddhau i Dduw (Gen 11:3, 4)

Onid yw enwau'r rhan fwyaf ohonynt wedi eu hanghofio ers talwm?

Fe fydd hyn yn digwydd yn fuan i'r rheiny sydd heddiw yn ceisio gwneud enw iddynt eu hunain

Ystyriwch: Sut enw ydych chi'n ei wneud i chi'ch hun? Sut mae eich enw chi yn adlewyrchu ar eich teulu ac ar y gynulleidfa Gristnogol? 'Fydd e'n effeithio ar eich gallu i gael breintiau yn y gynulleidfa? Yn bwysicach, sut enw ydych chi'n ei wneud gyda Jehofah? Mae ganddo lyfr bywyd ac enwau ynddo. 'Ydi'ch enw chi ynddo?

SUT ENW YDYCH CHI'N EI WNEUD? (5 mun.)

Yn faban, rhoddwyd enw arnoch

Yn naturiol 'roedd hyn o ddiddordeb i'ch rhieni a pherthnasau ond o fawr bwys i'r rhan fwyaf o bobl eraill

'Doedd eich enw yn fawr mwy na label, gan na wyddai neb fawr amdanoch, a fyddai gennych bersonoliaeth hardd a thalentau arbennig neu a fyddech yn gwasanaethu Duw

Er i rywun arall megis rhiant neu berthynas roi enw personol ichwi, chi sy'n rhoi ystyr iddo

Mae eich enw personol yn tyfu o ran ystyr drwy gydol eich oes, gan ddynodi sut berson ydych (*w*81 2/15 20-30)

Gwna rhai enw drwg

Jwdas—bradwrus

Nimrod—gwrthryfelgar

Cain—llidiog ac eiddigeddus

'Oes unrhyw un ohonom ni yn magu enw felly?

Gwna eraill enw da

Mae i'r un cyfiawn enw da gyda Duw (Preg 7:1)

Daeth Duw i 'nabod Moses yn ffafriol (Ex 33:12, 17)

A fedrid dweud hynny amdanoch chi 'nawr?

MAE EICH ENW DA YN ADLEWYRCHU AR ERAILL (16 mun.)

Wrth wneud enw da, fe fyddwch hefyd yn adlewyrchu'n dda ar eich teulu, ar Dduw a'i Air, ac ar y gynulleidfa (*w*87 2/15 20)

Gall llanciau Cristnogol gyfrannu at enw da'r holl deulu drwy ymddwyn yn egwyddorol foesol

Mae'r fath ymddygiad yn adlewyrchu ar enw da eich tad, sydd â'i enw arnoch (1Sam 17:55; *it*-2 855)

Gall yr enw da sydd ichwi yn yr ysgol roi'r cyfle i dystiolaethu i eraill (Mth 5:16)

Gall hyn fod yn gymeradwyaeth ichwi i dderbyn breintiau megis arloesi'n gynorthwyol neu'n llawn amser, gwasanaethu'n was gweinidogaethol

Efallai mai yn ei arddegau hwyr neu ugeiniau cynnar 'roedd Timotheus pan ddewiswyd gan Paul (Act 16: 1-3; *it*-2 1105)

Gall gwragedd Cristnogol ddod ag enw da i'r Beibl (Diar 31:10-31; Tit 2:3-5)

Wrth gael eich denu i hel clecs am eraill, ystyriwch sut enw, y gallech fod yn ei sefydlu

Sylwa eraill a gwerthfawrogant weld rhywun â rhan amlwg yn y gwaith maes tra'n cadw cartref glân a gofalu am y plant (Gallech adrodd profiad rhywun a ymddiddorodd yn y gwirionedd am y rheswm hwn; *w*90 2/15 27; *yb*93 62)

Mae gofyn i frodyr sydd i'w cymeradwyo'n henuriaid neu weision gweinidogaethol fod ag enw da iddynt (1Tim 3:2, 7, 10; *w*90 9/1 24; *om* 33)

Pan grybwyllir eich enw, 'ydi eraill yn meddwl amdanoch fel un diog, un sy'n defnyddio dulliau busnes amheus neu iaith ffiaidd, neu yn un â chanddo dymer chwyrn?

Neu, 'ydyn' nhw'n meddwl amdanoch chi fel un sy'n byw yn ôl safonau Cristnogol o ran moesau, masnachu, ymwneud teuluol, a chymdogrwydd da?

Mae dynion, gwragedd, a phlant sydd wedi gwneud enw fel hyn iddynt eu hunain hefyd yn gwneud enw da gyda Duw

PWYSIGRWYDD GWNEUD ENW DA GYDA DUW (10 mun.)

Mae'n llawer pwysicach gwneud enw da gyda Duw na chyda cyfeillion ysgol, cydweithwyr, yn y gymuned, neu yn y byd yn gyffredinol

Mae bywyd Iesu'n dangos pwysigrwydd a budd cael enw da gyda Duw

Fe ganolbwyntiodd ar ogoneddu ei Dad a phrofi'n ffyddlon iddo, nid rhoi'r lle blaenaf i'w enw ei hun, pleserau personol, neu yrfa seciwlar (Lc 22:42; In 17:4)

Er i Dduw ganiatau i Iesu gael ei brofi hyd at angau, fe gofiodd amdano a'i wobrwyo

Fe'i atgyfododd ef a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw dynol arall, hyd yn oed yn uwch na'r angylion (Phil 2:9-11; Heb 1:3, 4)

I ennill enw da gyda Duw, rhaid inni gydnabod yr hyn y mae enw Iesu yn ei gynrychioli (*it*-2 467; *w*83 1/15 31)

'Ydym ni'n gwneud hyn? Mae'n angenrheidiol os ydym i wneud enw da gyda Duw

Ym mhresenoldeb y rhai a ymddengys yn ddidduw a beirniadol, 'ydym ni'n cuddio'r ffaith mai tystion i Jehofah ac Iesu ydym? (Mc 8:38)

Er gwaethaf iaith ffiaidd a drygioni o'n cwmpas, 'ydym ni'n ymddwyn mewn ffordd sy'n dangos teyrngarwch i Iesu?

Drwy lynu wrth ei enw, 'rydym yn gwneud enw da gyda Duw, fel y gwnaeth y Cristnogion yn Pergamus a Philadelphia hen (Dat 2:13; 3:8; *re* 42, 60)

'YDI'CH ENW CHI YN "LLYFR Y BYWYD"? (8 mun.)

Bywyd tragwyddol yw'r wobr wych y mae Duw yn ei chyflwyno i'r sawl sy'n gwneud enw da gydag Ef

Mae'n golygu mwy na gogoniant byrhoedlog cael enw da gyda dynion

Oddi ar amser Abel, sefydlu byd y ddynoliaeth, mae Jehofah wedi bod yn ysgrifennu enwau yn "llyfr y bywyd" (Dat 17:8; *it*-2 468)

Ysgrifennir enwau'r teilwng oherwydd iddynt yn ystod eu hoes arfer ffydd, ddilyn cyfiawnder, wneud ewyllys Duw—gwneud enw da gyda Duw

Drwy roi'r lle blaenaf i ewyllys Duw, gallwn sicrhau arysgrifo'n henwau yn y llyfr hwnnw hyd yn oed 'nawr. 'Ydym ni'n gweithio i sicrhau hynny?

Ond, cofiwch, gellid dileu ein henw o lyfr y bywyd

Nid arysgrifir enwau'n annileadwy (Ex 32:32, 33; *re* 58)

Wedi gwneud enw da gyda Duw, dylem barhau'n ffyddlon fel y cadwer yr enw da

Yn olaf, gall unigolion sydd â'u henwau wedi'u hysgrifennu yn llyfr y bywyd eu cadw yno'n barhaol (*w*87 9/1 29)

Gall pawb ohonom wneud cynnydd i sicrhau a chadw enw da gyda Duw

Mae'n ymwneud â'n holl ffordd o fyw, ein teithi a'n harferion personol yn ogystal â'n gwasanaeth uniongyrchol i Dduw

Boed ni'n hen neu ifanc, ymdrechwch i sicrhau arysgrifo'ch enw yn "llyfr bywyd" Duw a'i gadw yno

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)

© 1993 Watch Tower Bible and Tract Society of Pennsylvania